Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 16.07.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Canllawiau Agor Llwybrau Cwricwlwm i Gymru** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>At ei gilydd, mae'r canllawiau drafft hyn yn cyflwyno egwyddorion defnyddiol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru i'r rhai sy'n arwain dysgu tuag at gam dilyniant un. Mae nodi oedolion sy'n galluogi, amgylcheddau sy'n galluogi a phrofiadau sy'n galluogi yn fuddiol wrth gynorthwyo i ddeall sut gellir rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus yn y lleoliadau hyn. Mae dadansoddi sut olwg sydd ar addysgeg dda yn y cam dysgu hwn yn fuddiol. Mae'n bwysig fod egwyddorion datblygiad plant yn cael eu cynnwys ac yn rhan bwysig o ddylunio'r cwricwlwm.<br><br>Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, rydym wedi nodi ble y gellid cryfhau'r canllawiau, yn cynnwys:<br><br>• darparu dolenni at arweiniad pellach neu astudiaethau achos<br>• darparu mwy o fanylion am rôl yr oedolyn sy'n galluogi i hyrwyddo annibyniaeth neu gefnogi'r rhai ag ADY<br>• ystyried rhagnodi faint o ddysgu ddylai ddigwydd mewn gwahanol amgylcheddau (yn yr awyr agored / dan do)<br>• mwy o fanylion am sut olwg sydd ar arfer orau ar gyfer cynwysoldeb ac amrywiaeth<br>• ystyried ymhellach sut gellir cryfhau'r dimensiwn Cymreig<br><br>Hefyd, rydym wedi nodi bod llawer o'r ddogfen hon eisoes yn ymddangos yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, sydd hefyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Rydym yn meddwl tybed fyddai'r ddogfen hon yn fwy effeithiol pe bai'n cael ei chynnwys yn nogfennau eraill y Cwricwlwm i Gymru i amlinellu addysgeg ddisgwyliedig, yn hytrach na'i bod yn ymddangos fel dogfen ar ei phen ei hun. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n gweithio ym myd addysg, neu'n cefnogi cyflwyno addysg?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

i) Os ydw, beth yw eich sefydliad? (Os na, parhewch i iii isod)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (cynradd) | ☐ | Sefydliad addysg uwch | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (uwchradd) | ☐ | Awdurdod esgobaethol | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (arbennig) | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (cynradd) | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (uwchradd) | ☐ | Darparwr hyfforddiant preifat | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (arbennig) | ☐ | Trydydd sector | ☐ |
| Ysgol ddwyieithog (cynradd) | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Ysgol ddwyieithog (uwchradd) | ☐ | Dysgu oedolion yn y gymuned | ☐ |
| Ysgol ganol cyfrwng Cymraeg | ☐ | Sefydliad dyfarnu | ☐ |
| Ysgol ganol cyfrwng Saesneg | ☐ | Undeb athrawon | ☐ |
| Uned cyfeirio disgyblion (UCD) | ☐ | Corff rheoleiddio (yn cynnwys Arolygiaeth) | ✓ |
| Ysgol arbennig | ☐ | Corff llywodraethol | ☐ |
| Lleoliad a ariennir nas cynhelir | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Coleg addysg bellach | ☐ | | |

ii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth | ☐ | Canghellor / is-ganghellor | ☐ |
| Athro | ☐ | Darlithydd | ☐ |
| Ymarferwr | ☐ | Arloeswr | ☐ |
| Athro newydd gymhwyso | ☐ | Llywodraethwr | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynorthwyydd addysgu | ☐ | Ymgynghorydd her | ☐ |
| Uwch arweinydd | ☐ | Swyddog gwella ysgolion | ☐ |
| Athro cyflenwi | ☐ | Arolygydd | ✓ |
| Pennaeth / is-bennaeth | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Athro ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar (neu gyfwerth) | ☐ | | |

iii) Os nad ydych chi'n gweithio ym myd addysg, neu'n cefnogi cyflwyno addysg, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant neu ofalwr | ☐ | Cyflogwr | ☐ |
| Oedolyn dros 18 oed (nid rhiant na gofalwr) | ☐ | Prentis | ☐ |
| Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed) | ☐ | Arall (nodwch): | ☐ |
| Myfyriwr / academydd | ☐ | | |

iv) Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ |

Os 'ydw', nodwch.

| |
|---|
| Estyn |

**Cwestiwn 2** – A oes perthynas glir rhwng y canllawiau draft hyn a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Ceir perthynas glir rhwng y canllawiau 'Agor Llwybrau' a chanllawiau cyhoeddedig y Cwricwlwm i Gymru. Caiff nodau trosfwaol canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru eu |

mynegi'n briodol yn y ddogfen 'Agor Llwybrau'. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu gwerthoedd y Cwricwlwm i Gymru tra'n ystyried y lleoliadau penodol sy'n arwain dysgu tuag at gam dilyniant un. Mae lle i gryfhau'r canllawiau drafft hyn trwy ychwanegu mwy o wybodaeth am y testunau a amlygir yn y cyflwyniad i'r ymateb hwn, yn ogystal ag astudiaethau achos o ysgolion arloesi neu ysgolion dysgu proffesiynol i gefnogi deall a gweithredu arfer orau.

Teimlwn fod diben y ddogfen yn llai clir wrth ystyried y cwricwlwm arfaethedig ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Mae hyn oherwydd bod llawer o'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn Agor Llwybrau wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer y cwricwlwm nas cynhelir hefyd. Yn ychwanegol, defnyddir gwahanol dermau, er enghraifft 'oedolion sy'n galluogi' yn Agor Llwybrau a 'rôl yr ymarferwr' yn y cwricwlwm nas cynhelir. Hefyd, nodom fod 'amgylcheddau sy'n galluogi' wedi dod yn 'amgylcheddau effeithiol' yn nogfen y cwricwlwm. Teimlwn y dylai fod iaith gyson trwy gydol dogfennau'r cwricwlwm.

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau drafft hyn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion sy'n wynebu ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr yn ystod y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam dilyniant un wrth gynllunio, dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydyn | ☐ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ✓ |

**Esboniwch eich ateb.**

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio'n addas at y materion sy'n wynebu ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam dilyniant un. Er enghraifft, mae'r canllawiau'n cydnabod y bydd gan ddysgwyr wahanol gyfraddau cynnydd. Rydym yn ystyried y gallai fod rhywfaint o ddryswch yma o ran lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Nid ydym yn siŵr a yw'r ddogfen yn ddigon clir wrth wahaniaethu rhwng anghenion ymarferwyr mewn gwahanol fathau o leoliadau; er enghraifft, bydd y gallu i ddatblygu'r amgylchedd yn wahanol mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion arbennig. Er bod y ddogfen yn amlygu sut olwg allai fod ar arfer dda ar gyfer lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd, nid yw o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu ymarferwyr mewn lleoliadau eraill yn ddigon da.

**Cwestiwn 4** – A yw'r canllawiau hyn yn cefnogi ac yn helpu'n ddigonol o ran cynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam dilyniant un?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydyn | ☐ | Nac ydyn | ✓ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

Yn gyffredinol, mae'r canllawiau hyn yn darparu cefnogaeth a help digonol o ran cynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer y rhai sy'n gweithio tuag at gam dilyniant un. Mae'n dangos sut olwg ddylai fod ar oedolion, amgylcheddau a phrofiadau sy'n galluogi ac a fydd yn helpu ymarferwyr ac arweinwyr i fyfyrio ar yr hyn y maent yn ei gynnig wrth ddylunio a gweithredu cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r adrannau ar chwarae a dysgu chwareus a bod yn yr awyr agored yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynllunio ar gyfer y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn yn

berthnasol ar gyfer ystod ehangach o ddysgwyr na dim ond y rhai sydd ar gam cyn-dilyniant un. Gallai fod perygl y bydd ymarferwyr dim ond yn gweld bod hyn ar gyfer plant cam cyn-dilyniant un.

Fel yr amlygwyd yng nghwestiwn dau, mae'n ymddangos bod diffyg cysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir rhwng dogfennau, fel y canllawiau hyn a dogfen y cwricwlwm nas cynhelir.

Wrth ystyried y ddogfen ymgynghori ar gyfer y cwricwlwm nas cynhelir a'r ymgynghoriad hwn, teimlwn fod dyblygu sylweddol rhwng dogfennau. Rydym yn gwerthfawrogi bod y ddogfen hon ar gyfer holl ddysgwyr cam cyn-dilyniant un, ond yn meddwl tybed a ddylid ei chynnwys yn nogfennau canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal ag yn nogfen y cwricwlwm nas cynhelir yn hytrach nag ymddangos fel dogfen ar ei phen ei hun.

Gellid cryfhau'r canllawiau hyn ymhellach trwy ychwanegu astudiaethau achos i gefnogi'r ddealltwriaeth ehangach o arfer orau. Er enghraifft, gallai'r canllawiau gynnwys enghreifftiau penodol o wahanol leoliadau, eu cyfyngiadau, a'u cryfderau a sut maent wedi cymhwyso egwyddorion o'r canllawiau hyn i greu cwricwlwm newydd ac ystyrlon ar gyfer eu lleoliad neu ysgol.

**Cwestiwn 5** – Pa agweddau ar y canllawiau hyn, os o gwbl, sydd fwyaf buddiol ac y dylid eu cadw, yn eich barn chi?

Rydym yn ystyried bod llawer o agweddau ar y canllawiau hyn yn fuddiol. Yn benodol, rôl y tri galluogwr – oedolion sy'n galluogi, profiadau sy'n galluogi ac amgylcheddau sy'n galluogi. Mae'r disgrifiadau o bwysigrwydd pob un o'r rhain a'u cydadwaith yn fuddiol ar gyfer deall cymhwyso addysgeg cyn cam dilyniant un. Hefyd, mae'n helpu athrawon i ddeall y cydbwysedd rhwng gweithgareddau, medrau a chyfleoedd y dylid eu hadlewyrchu wrth ddylunio'r cwricwlwm a chynllunio gwersi.

**Cwestiwn 6** - A oes yna unrhyw agweddau ar y canllawiau hyn sy'n rhy ragnodol, yn eich barn chi?

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Oes | | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Nodwch.**

Er ein bod yn croesawu'r pwyslais ar fod yn yr awyr agored i'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir, rydym yn ystyried y gallai'r frawddeg 'Dylai fod y prif leoliad ble mae dysgu yn digwydd' fod yn rhy ragnodol. Er enghraifft, efallai na fydd rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai â chyflyrau iechyd isorweddol, yn gallu treulio cyfnodau amser estynedig mewn amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Mae'r canllawiau cwricwlwm hyn wedi eu dylunio i wneud newidiadau a gwelliannau ystyrlon ar gyfer pob lleoliad addysg yng Nghymru, ac mae ganddynt y gallu i wneud hynny. Byddai'n fuddiol sicrhau bod yr holl ganllawiau a ddarparwyd yn cymell ysgolion i deimlo fel hyn am y newidiadau hyn.

**Cwestiwn 7** – A oes yna unrhyw agweddau ar y canllawiau hyn nad ydynt yn ddigon manwl, yn eich barn chi?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Esboniwch eich ateb**.

| |
|---|
| Mae'r canllawiau yn fanwl mewn llawer o fannau, fodd bynnag, gellid eu cryfhau trwy sicrhau bod mwy o fanylion yn cael eu hychwanegu mewn perthynas â rôl yr oedolyn sy'n galluogi i ddatblygu annibyniaeth ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, gallai'r oedolion hyn rwystro datblygiad annibyniaeth yn anfwriadol trwy beidio â chaniatáu cyfle i ddysgwyr gwblhau tasgau eu hunain, gwneud camgymeriadau neu fentro. Ar hyn o bryd, ceir cyfeiriad cyfyngedig at yr effaith a gaiff oedolion sy'n galluogi ar ddatblygu annibyniaeth yn adran 3.1 y canllawiau hyn.<br><br>Bydd y canllawiau hyn yn berthnasol i lawer o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Byddai'n cryfhau dealltwriaeth ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo dysgwyr ag ADY i drafod rôl arbenigwyr neu fewnbwn therapiwtig o fewn 'oedolion sy'n galluogi'. Gallai dealltwriaeth gryfach o gyfrifoldeb ar y cyd yr holl oedolion sy'n galluogi gefnogi darparu profiadau dysgu cyfannol.<br><br>Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cyfeirio at yr angen am amrywiaeth a chynwysoldeb, fodd bynnag, gallai elwa ar ragor o fanylion am sut olwg sydd ar hyn mewn ystafelloedd dosbarth a lleoliadau yng Nghymru heddiw. Mae gan lawer o gymunedau yng Nghymru lefelau cyferbyniol o amrywiaeth, a gallai hyn effeithio ar ddirnadaeth darparwr o'r hyn mae bod yn amrywiol a chynhwysol yn ei olygu. |

**Cwestiwn 8** – A fyddai'n fuddiol cynnwys gwybodaeth fanylach am ddatblygu medrau trawsgwricwlaidd ar gyfer dysgwyr yn y cyfnod dysgu hwn yn y canllawiau hyn?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Byddai | ✓ | Na fyddai | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Esboniwch eich ateb**.

| |
|---|
| Byddai unrhyw ganllawiau pellach neu astudiaethau achos ar ddatblygu medrau trawsgwricwlaidd yn cryfhau'r canllawiau hyn ac yn cefnogi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr gan athrawon ac arweinwyr. Gallai hyn wella datblygu a dylunio'r cwricwlwm yn y dyfodol. Fodd bynnag, pan fyddwn yn ystyried y ddogfen ymgynghori ar y cwricwlwm nas cynhelir, gwelwn fod y manylion hyn wedi cael eu cynnwys ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau. Gallai fod yn ddefnyddiol ymgorffori'r wybodaeth ychwanegol hon yn holl ddogfennau canllawiau'r cwricwlwm yn hytrach nag yn y ddogfen hon ar ei phen ei hun. |

**Cwestiwn 9** – A oes yna unrhyw wybodaeth arall rydych chi'n meddwl y dylid ei chynnwys yn y canllawiau hyn?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |

**Esboniwch eich ateb**.

Gellid cryfhau'r canllawiau hyn trwy gynnwys canllawiau yn ymwneud â'r heriau a'r materion sy'n wynebu ymarferwyr mewn darparwyr heblaw lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd.

**Cwestiwn 10** – Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau Agor Llwybrau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Nid ydym yn teimlo bod y canllawiau yn rhoi pwyslais digon cryf ar ddatblygu'r Gymraeg, ac nid yw'n amlinellu sut mae'n cefnogi ac yn gweithio tuag at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050. Trwy gydol y ddogfen, ceir cyfeiriadau cyfyngedig at y Gymraeg a'i diwylliant.

Mae'r canllawiau hyn yn ceisio dangos sut gellir defnyddio oedolion a phrofiadau sy'n galluogi i hyrwyddo'r Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth yn y cyfnod dysgu hwn.

Nid yw'r ddogfen yn rhoi ystyriaeth ddigon da i'r gwahanol gyd-destunau i ddatblygu'r Gymraeg ym mhob ardal o Gymru, er enghraifft defnyddio technegau trochi i ddatblygu medrau Cymraeg plant o gartrefi lle siaredir Saesneg yn bennaf. Yn gyffredinol, teimlwn y gellid cryfhau cyd-destun Cymreig y ddogfen hon mewn llawer o feysydd, er enghraifft wrth hyrwyddo hunaniaeth Gymreig plant.

Hefyd, dylai'r ddogfen ystyried y ddarpariaeth Gymraeg i ddiwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, yn enwedig dysgwyr mewn ysgolion arbennig.

**Cwestiwn 11** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y canllawiau Agor Llwybrau er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Gweler yr ateb i gwestiwn 10.

**Cwestiwn 12** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y bwlch hwn i roi gwybod amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o fod ar gael i'r cyhoedd, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: ☐